Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub

# PRIF SWYDDOG TÂN

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Pencadlys – Llanelwy LL17 0JJ**
**Cyflog - Oddeutu £166,000- £169,000 y flwyddyn.**

Mae gan yr Awdurdod a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru enw da yng Nghymru a thu hwnt. Mae gennym hanes o ddarparu gwasanaethau brys ac ataliol rhagorol i gymunedau Gogledd Cymru trwy ein staff ymroddedig sydd â mynediad at yr offer a'r adnoddau gorau sydd ar gael.

Bydd y Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr presennol, Dawn Docx, yn ymddeol ddiwedd Rhagfyr 2026 ac rydym yn edrych i benodi ymgeisydd eithriadol gyda'r cyfuniad angenrheidiol o weledigaeth, brwdfrydedd a gwytnwch yn ei lle hi. Mae hwn yn gyfle prin i weithio mewn rôl heriol a fydd yn gofyn am arweinyddiaeth gref, sgiliau gwleidyddol a chyfathrebu a gwerthfawrogiad datblygedig o'r amgylchedd cymdeithasol ehangach. Mae Gogledd Cymru yn uchel ei barch am ansawdd ei gwaith mewn partneriaeth ac mae ganddo broffil uchel mewn arweinyddiaeth ar draws y sector cyhoeddus. Disgwylir i'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr chwarae rhan lawn a gweithgar yn y gwaith hwn. Yn ogystal, mae'r rôl yn mynnu bod perthnasoedd yn cael eu ffurfio a'u datblygu â'r rhai ar lefelau uchaf Llywodraeth Cymru. Mae cyswllt agos rheolaidd ar y lefel hon yn elfen allweddol o'r rôl.

Am ragor o fanylion am y rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn y ffurflen gais yw 12.00 hanner dydd, 25 Medi, 2026**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau | PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost

Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.